# Dweud eich Dweud!

**Ar y rheolau ar gyfer rheoli Cŵn mewn mannau cyhoeddus yn Rhondda Cynon Taf**

HAVE YOUR DWEUD SAY EICH DWEUD

RHONDDA CYNON TAF

**Rhowch wybod i ni beth yw'ch barn erbyn 3 Awst 2020.**

## Sut mae modd i mi gael dweud fy nweud?

- **Ewch i:** www.rctcbc.gov.uk/ymgynghoriadbawcwn am ragor o wybodaeth neu i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.
- **E-bost:** ymgynghori@rhondda-cynon-taf.gov.uk
- **Ffôn:** 01443 425014
- **Trwy lythyr:** Rhadbost RSBU-HJUK-LSSS, Carfan Materion Ymchwil ac Ymgynghori, Cysylltiadau Cyhoeddus a Strategaeth, Y Pafiliynau, Cwm Clydach, Tonypandy, CF40 2XX.
- Cymerwch ran mewn sesiwn galw heibio i'r cyhoedd dros y rhyngrwyd

## Beth mae'r Cyngor yn dymuno ei wneud?

Yn 2017 fe wnaethon ni gyflwyno rheolau newydd ar gyfer rheoli cŵn ar dir cyhoeddus yn Rhondda Cynon Taf o dan yr hyn a elwir yn Orchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO). Rhaid inni edrych ar y rheolau yma bob 3 blynedd. Hoffai'r Cyngor yn awr barhau i ddefnyddio'r rheolau ar gyfer y 3 blynedd nesaf a hoffen ni wybod beth yw eich barn chi am hyn.

## Pam mae'r Cyngor yn gwneud hyn?

Mae'r rhan fwyaf o bobl wedi hoffi'r rheolau rydyn ni wedi'u rhoi ar waith ac yn cytuno â'r syniad. Mae adroddiad gan Cadwch Gymru'n Daclus (2019/20) yn dangos fod baw ci ar strydoedd RhCT ar ei isaf erioed.

Serch hynny, er gwaethaf cyflwyno'r Gorchmynion yn 2017, mae nifer fach o berchenogion cŵn sydd ddim yn glanhau ar ôl eu cŵn neu sydd ddim yn eu cadw o dan reolaeth.

Mae baw ci yn beth annifyr iawn i edrych arno ac mae modd iddo arwain at salwch difrifol mewn pobl. Mae modd atal y clefyd yma os caiff baw ci ei glirio ar unwaith. Mae angen hefyd i rai o'r meysydd chwarae gael eu harchwilio'n eithaf aml ar gyfer baw cŵn cyn bod modd eu defnyddio.

## Beth mae hyn yn ei olygu?

Mae'r rheolau yn y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) yn helpu'r Cyngor i sicrhau bod pobl yn cadw eu cŵn dan reolaeth yn Rhondda Cynon Taf.

Maen nhw'n ein helpu ni i reoli'r pethau niweidiol y gall perchnogion cŵn anghyfrifol eu gwneud ac yn caniatáu i berchnogion cŵn cyfrifol barhau i gerdded eu cŵn heb derfynau diangen.

# Dweud eich Dweud

**Ar y rheolau ar gyfer rheoli Cŵn mewn mannau cyhoeddus yn Rhondda Cynon Taf**

HAVE YOUR DWEUD SAY EICH DWEUD

RHONDDA CYNON TAF

## Beth yw'r rheolau?

Roedd y Gorchymyn gwreiddiol, yr hoffen ni ei ymestyn, yn seiliedig ar y rheolau canlynol yn cael eu gorfodi:

- **RHAID** i berchnogion cŵn godi baw cŵn ar unwaith a chael gwared ar y baw mewn modd addas.
- **RHAID** i berchnogion cŵn gario bagiau, neu ryw ddull addas arall, er mwyn cael gwared ar y baw ar bob adeg.
- **RHAID** i berchnogion cŵn ddilyn cyfarwyddyd Swyddog Awdurdodedig i roi ci ar dennyn..
- Caiff cŵn eu **GWAHARDD** o holl ysgolion, mannau chwarae i blant, a chaeau chwaraeon sy wedi'u marcio y mae'r Cyngor yn eu cynnal a'u cadw.
- **RHAID** cadw cŵn ar dennyn ar bob adeg mewn mynwentydd y mae'r Cyngor yn eu cynnal a'u cadw.

Mae modd i chi weld rheolau 2017 yma - Cŵn yn Baeddu – Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus yn Rhondda Cynon Taf

## Beth os dydy pobl ddim yn dilyn y rheolau?

Cawn ni godi dirwy o £100 ar bobl os dydyn nhw ddim yn dilyn y rheolau. Dyma'r swm mwyaf o ddirwy caiff y Cyngor ei godi..

## Pa fannau sydd dan sylw?

Mae'r mannau cyhoeddus sy'n cael eu cynnwys i'w gweld ar nifer o fapiau - cliciwch ar y ddolen isod i weld y rhain:

https://www.rctcbc.gov.uk/PSPOsMaps (60mb)

## Parc Aberdâr

Yn ogystal â'r rheolau uchod ceir rheolau ar wahân ar gyfer Parc Cyhoeddus Aberdâr.

Ym Mharc Aberdâr, rhaid i chi gadw'ch ci ar dennyn drwy'r amser.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Ar ôl yr ymgynghoriad yma, byddwn ni'n ysgrifennu adroddiad am yr hyn a ddywedodd pobl. Bydd Aelodau Cabinet y Cyngor ac Uwch Swyddogion wedyn yn ystyried hyn ac yn gwneud penderfyniad ynghylch beth ddylai'r rheolau fod ar gyfer y 3 blynedd nesaf.